Department for Digital, Culture, Media & Sport

# Ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad ar ddad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu

**21 Ionawr 2021**

# Cynnwys

Crynodeb 3
Yr Ymgynghoriad ar ddad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu 5
Ymatebion i'r ymgynghoriad 7
Nifer yr ymatebion a gawsom a sut y gwnaethom eu trin 7
Yr hyn a ddywedodd yr ymatebion 7
Ymateb y llywodraeth a'r camau nesaf 16

Atodiad A: rhestr o randdeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad 19

# Crynodeb

1. Ar hyn o bryd, mae rhywun sy'n gosod neu'n defnyddio derbynnydd teledu neu sy'n gwylio cynnwys ar BBC iPlayer heb drwydded deledu yn euog o drosedd.

2. Ar 5 Chwefror 2020, cyhoeddodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ymgynghoriad wyth wythnos yn ceisio barn ynghylch a ddylai'r llywodraeth ddad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu a disodli'r sancsiwn troseddol cyfredol â chynllun gorfodi sifil arall.

3. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 1 Ebrill 2020 ar ôl derbyn 154,478 o ymatebion. Nodwyd bod 42,697 o ymatebion wedi dod oddi wrth unigolion a bod 111,700 o ymatebion ychwanegol ynghlwm wrth ymgyrch o un o dair ffynhonnell: 38 Degrees, y TaxPayers' Alliance ac We Own It. Yn olaf, nodwyd bod 81 o ymatebion wedi dod oddi wrth sefydliadau neu randdeiliaid (y cyfeirir atynt fel 'rhanddeiliaid' drwy gydol y ddogfen hon).

4. At ei gilydd, roedd mwyafrif yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a roddodd farn yn gwrthwynebu dad-griminaleiddio. Gwelwyd hollt yn ymatebion unigolion a roddodd farn, gydag 17,652 o blaid dad-griminaleiddio ac 19,199 yn erbyn. Roedd ymatebion a gafwyd drwy ymgyrchoedd wedi'u rhannu, gydag 18,869 o blaid a 92,831 yn erbyn. Yn olaf, ymhlith ymatebion gan randdeiliaid, roedd 21 o blaid dad-griminaleiddio a 45 yn erbyn, ond nid oedd 15 o'r ymatebion yn cynnig unrhyw farn gyffredinol o gwbl. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymateb i'r ymgynghoriad yn fanylach.

5. Roedd llawer o ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn cynnig barn ar y BBC yn gyffredinol neu ar ddiwygio model y drwydded deledu. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi'n glir na fyddai'r llywodraeth yn ystyried newidiadau ehangach i'r drwydded deledu ac felly gellir diystyru gwybodaeth a roddwyd yn y meysydd hyn; felly nid yw'r wybodaeth hon wedi'i hystyried mewn perthynas â phenderfyniadau'r llywodraeth. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth wedi nodi bod ganddi gynllun clir ar gyfer diwygio'r BBC a fydd yn cynnwys ystyried y ffordd y mae'r BBC yn cael ei hariannu a model y drwydded deledu. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i gadw model ariannu ffi'r drwydded drwy gydol cyfnod presennol y Siarter, hyd at 2027; fodd bynnag, mae'r llywodraeth hefyd wedi bod yn glir y bydd yn adolygu model ehangach y drwydded deledu cyn y Siarter nesaf.

6. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, mae'r llywodraeth yn dal i bryderu bod sancsiwn troseddol ar gyfer osgoi talu'r drwydded deledu yn fwyfwy anghymesur ac annheg mewn system ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus fodern. Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod nifer sylweddol o bobl yn gwrthwynebu'r sancsiwn troseddol, gyda rhai'n tynnu sylw at y straen a'r pryder sylweddol y gall sancsiwn ei achosi i unigolion, gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas, fel pobl hŷn.

7. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ymatebion yr ymgynghoriad, mae'r llywodraeth hefyd yn cydnabod y byddai newid y sancsiwn ar gyfer osgoi talu'r drwydded deledu yn

cael effeithiau eang ar dalwyr ffi'r drwydded, a bydd angen ystyried yr effeithiau hyn yn ofalus. Byddai'r llywodraeth am i unrhyw sancsiwn sifil amgen sicrhau bod y gosb am osgoi talu'r drwydded deledu yn ddigon cadarn i danategu'r gofyniad cyfreithiol i ddal trwydded deledu ac felly atal achosion o beidio â thalu ffi'r drwydded. Byddai hyn yn debygol o olygu cosbau ariannol uwch i rai. Ar yr un pryd, tynnodd yr ymgynghoriad sylw hefyd at effeithiau a allai fod yn sylweddol o ran natur, cost ac anhawster gweithredu cosb sifil amgen – yn enwedig gan fod y Weithdrefn Un Ynad bresennol yn effeithlon[1] – a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r gwaith parhaus o gasglu ffi'r drwydded. Er enghraifft, roedd pryderon y byddai'r dirwyon uwch o dan drefn gorfodi sifil yn arwain at fwy o ddefnydd o feilïaid ar gyfer cleientiaid sy'n agored i niwed.

8. Felly, mae'r llywodraeth yn bwriadu parhau i asesu effaith bosibl sancsiwn amgen ar dalwyr ffi'r drwydded, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed. **Ar y sail hon, er nad oes unrhyw benderfyniad terfynol wedi'i wneud ar hyn o bryd, bydd y llywodraeth yn cadw'r mater o ddad-griminaleiddio dan ystyriaeth barhaus fel rhan o'r cynllun ehangach o ddiwygio'r BBC.**

9. Fel rhan o'r ystyriaeth barhaus hon o ddad-griminaleiddio, efallai y bydd y llywodraeth yn y dyfodol yn cynnal ymgynghoriad technegol pellach ar y sancsiynau sifil amgen posibl i nodi'n fanylach sut y gallai cynlluniau amgen weithio'n ymarferol, gan gynnwys sancsiynau a mesurau gorfodi priodol ar gyfer y rhai sy'n osgoi'r angen am drwydded.

10. Yn ogystal, o dan y cynllun ehangach ar gyfer diwygio'r BBC, mae'r llywodraeth bellach wedi dechrau trafodaethau ar gost y drwydded deledu. Mae'r llywodraeth o'r farn y byddai penderfyniad yn y dyfodol ar ddad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu yn elwa o gael darlun cliriach o ran sbardunau ehangach incwm y BBC yn wyneb tueddiadau'r farchnad a thueddiadau eraill. Felly, bydd y llywodraeth yn bwrw ymlaen â'i hystyriaeth o ddad-griminaleiddio hefyd yng nghyd-destun ehangach y setliad nesaf ar gyfer ffi'r drwydded, a fydd yn gosod lefel Ffi'r Drwydded am gyfnod o bum mlynedd o leiaf, o 2022 ymlaen.

---

[1] Amcangyfrifir bod mwyafrif yr achosion o Weithdrefnau Un Ynad yn cael eu rhestru a'u cwblhau yn y Llys Ynadon ar yr un diwrnod.

## Yr ymgynghoriad ar ddad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu

11. O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae'n ofynnol cael trwydded deledu er mwyn gosod neu ddefnyddio derbynnydd teledu. Mae'n ofynnol i bawb yn y DU, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw feddu ar drwydded briodol os ydynt yn gwylio neu'n recordio'r teledu oddi wrth unrhyw ddarparwr wrth iddo gael ei ddarlledu, a/neu sy'n gwylio cynnwys ar BBC iPlayer, p'un a yw hynny ar setiau teledu, cyfrifiaduron neu ddyfeisiau eraill.

12. Ar hyn o bryd, mae rhywun sy'n gosod neu'n defnyddio derbynnydd teledu neu sy'n gwylio cynnwys ar BBC iPlayer heb drwydded deledu yn euog o drosedd. Gelwir hyn yn achos o osgoi talu'r drwydded deledu. Nid yw osgoi talu'r drwydded deledu ynddo'i hun yn drosedd carcharol, ac ni fydd yn arwain at gofnod troseddol. Fodd bynnag, gallai peidio â thalu'r ddirwy a osodir am osgoi talu'r drwydded deledu, yn dilyn euogfarn droseddol, arwain at risg o gyfnod yn y carchar.

13. Archwiliwyd y model casglu a gorfodi presennol yn yr adolygiad '*TV Licence Fee Enforcement Review*' yn 2015, o dan arweiniad David Perry QC ('Adolygiad Perry'). Roedd Adolygiad Perry, a oedd yn ofynnol o dan adran 77 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015, yn ystyried a ddylid dad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu a rhoi cynllun gorfodi amgen nad yw'n droseddol yn lle hynny. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad hwn, cadarnhawyd y model casglu a gorfodi presennol ym Mhapur Gwyn y llywodraeth '*BBC ar gyfer y dyfodol: darlledwr o fri'* (y Papur Gwyn) yn ddiweddarach yn 2016.[2]

14. Fodd bynnag, mae'r dirwedd ddarlledu wedi newid yn syfrdanol ers hynny, gan gynnwys newidiadau i'r gweithgareddau y mae angen trwydded deledu ar eu cyfer a'r bobl sy'n gorfod talu am un, gan gynnwys bellach bobl dros 75 oed nad ydynt yn hawlio Credyd Pensiwn, yn dilyn penderfyniad y BBC ym mis Mehefin 2019. Roedd y llywodraeth hefyd yn parhau i bryderu am y ffordd yr oedd y drwydded deledu yn cael ei chasglu, a'r bygythiad o erlyniad troseddol, ac a oedd yn anghymesur neu'n llawdrwm.

15. Felly, roedd y llywodraeth yn credu ei bod yn iawn ystyried eto a yw'r sancsiwn troseddol yn parhau i fod yn briodol ar gyfer osgoi talu'r ffi drwydded deledu.

16. Lansiodd y llywodraeth ymgynghoriad ar 5 Chwefror 2020 a archwiliodd y model casglu a gorfodi presennol a'r pryderon a godwyd yn ei gylch. Yna, trodd at yr opsiynau posibl ar gyfer dad-griminaleiddio osgoi talu'r drwydded deledu a nodi cynigion lefel uchel ar gyfer modelau yn seiliedig ar gosb ariannol sifil neu drin y ffi ar gyfer trwydded heb ei thalu fel dyled sifil.

17. Yn yr ymgynghoriad, roedd y llywodraeth yn glir y byddai newid natur y tramgwydd o fod yn droseddol i fod yn sifil yn arwain at ystod eang o ganlyniadau. Nododd yr

[2] BBC ar gyfer y dyfodol: darlledwr o fri, Mai 2016

ymgynghoriad ei bod yn bosibl y byddai trosedd sifil yn cael ei hystyried yn fwy cymesur ar gyfer osgoi talu'r drwydded deledu, ac y gallai fod yn ffordd decach o ddwyn pobl sy'n osgoi talu i gyfrif. Nododd yr ymgynghoriad hefyd y gallai newid y model gorfodi gael effaith ar gyfraddau osgoi talu'r drwydded deledu ac ar incwm cyffredinol y BBC; byddai newidiadau hefyd yn golygu y byddai unigolion sy'n osgoi'r gofyniad i fod yn berchen ar drwydded deledu yn wynebu dull gorfodi gwahanol gan yr awdurdod Trwyddedau Teledu, a gallent wynebu costau uwch na'r hyn a geir o dan y system bresennol.

18. Gofynnodd yr ymgynghoriad y cwestiynau canlynol i ymatebwyr:
    - A ddylai achosion o osgoi talu'r drwydded deledu (defnyddio neu osod derbynnydd teledu heb drwydded deledu) beidio â bod yn drosedd mwyach? Pam yr ydych yn credu na ddylai achosion o osgoi talu'r drwydded deledu fod yn drosedd mwyach?
    - Os ydych, fel arall, yn ystyried y dylai achosion o osgoi talu'r drwydded deledu barhau i fod yn drosedd, beth yw'ch rhesymau dros hynny?
    - Os oes gennych farn, pa fodelau cynllun gorfodi amgen sy'n fwyaf priodol yn eich barn chi? Pam?
    - Pa gamau y gallai'r llywodraeth eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau a allai ddeillio o ddad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu?
    - Rhowch unrhyw dystiolaeth sy'n briodol yn eich barn chi wrth ateb y cwestiynau hyn ac unrhyw wybodaeth arall y credwch y dylai'r llywodraeth ei hystyried, yn enwedig pan fo effaith ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig neu'r rhai mwyaf agored i niwed.

19. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn nodi'r meini prawf y byddai'r llywodraeth yn eu defnyddio i benderfynu a ddylid dad-griminaleiddio osgoi talu'r drwydded deledu a oedd yn cynnwys:
    - p'un a yw cynllun gorfodi amgen, nad yw'n droseddol, yn decach ac yn fwy cymesur;
    - y gost a'r anhawster o weithredu unrhyw gynllun amgen;
    - yr effaith bosibl ar dalwyr ffi'r drwydded, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig; ac
    - effaith gyffredinol casglu ffi'r drwydded.

20. Gofynnodd yr ymgynghoriad i ymatebwyr am dystiolaeth bellach ar unrhyw feysydd yr oeddent yn teimlo y dylai'r llywodraeth eu hystyried. Yn benodol, roedd y llywodraeth eisiau deall sut y gallai unrhyw newidiadau effeithio ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a sut y gellid lliniaru effeithiau o'r fath. Nododd yr ymgynghoriad hefyd y byddai angen gwaith pellach i ddeall sut y gellid cymhwyso unrhyw newidiadau ar draws y gwahanol awdurdodaethau cyfreithiol yn y DU a Dibyniaethau'r Goron.

21. Drwyddi draw, roedd y llywodraeth yn glir nad oedd yr ymgynghoriad yn ystyried unrhyw newidiadau eraill i'r model trwydded deledu. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i gynnal y model trwydded deledu bresennol am weddill cyfnod y Siarter Frenhinol ('y Siarter') bresennol, a fydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2027. Fodd

bynnag, nododd yr ymgynghoriad fod y llywodraeth yn ystyried a ellid ymestyn y Cynllun Talu Syml ymhellach i gynyddu hyblygrwydd a chyfleustra i holl dalwyr ffi'r drwydded.

# Ymatebion i'r ymgynghoriad

22. Mae'r adran hon yn ystyried yr ymatebion a gafwyd o'r ymgynghoriad ar ddad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu a gynhaliwyd rhwng 5 Chwefror ac 1 Ebrill 2020. Mae'n nodi nifer yr ymatebion a gafwyd a'r rhai sydd wedi'u diystyru cyn archwilio'r ymatebion yn nhrefn y cwestiynau.

## Nifer yr ymatebion a gawsom a sut y gwnaethom eu trin

23. At ei gilydd, derbyniodd yr ymgynghoriad 154,478 o ymatebion a gafodd eu categoreiddio yn seiliedig ar p'un a gawsant eu nodi fel rhan o ymgyrch a ph'un a oeddent yn dod o sefydliad:
    - Nodwyd bod 42,697 o ymatebion gan unigolion.
    - Nodwyd bod 111,700 o ymatebion ynghlwm wrth ymgyrch o un o dair ffynhonnell: 38 Degrees, y TaxPayers' Alliance ac We Own It.
    - Nodwyd bod 81 o ymatebion wedi dod oddi wrth sefydliadau neu randdeiliaid[3] (y cyfeirir atynt fel 'rhanddeiliaid' drwy gydol y ddogfen hon). Nodir rhestr o ymatebion gan randdeiliaid yn Atodiad A.

24. Derbyniwyd ymatebion drwy'r arolwg ar-lein, drwy e-bost a thrwy'r post. Mae pob ymateb wedi'i ddadansoddi a'i drefnu yn ôl pa gwestiynau a atebwyd,[4] ond nid oedd pob ymateb i'r ymgynghoriad yn ateb pob cwestiwn.

25. Er mwyn hwyluso dealltwriaeth, rydym wedi ystyried yr holl ymatebion a'u crynhoi yn unol â'r cwestiynau a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Dylid nodi, lle y cyfeirir at ymatebion gan 'unigolion' isod, fod hyn yn cyfleu'r ymatebion a gafwyd drwy'r arolwg ar-lein, drwy e-bost a thrwy'r post nad oeddent gan sefydliad neu na nodwyd eu bod yn rhan o ymgyrch.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebion

*A ddylai achosion o osgoi talu'r drwydded deledu (defnyddio neu osod derbynnydd teledu heb drwydded deledu) beidio â bod yn drosedd mwyach?*

26. Roedd y cwestiwn cyntaf yn yr ymgynghoriad yn gofyn i ymatebwyr a oeddent o'r farn na ddylai achosion o osgoi talu'r drwydded deledu fod yn drosedd mwyach.

---

[3] Cafwyd sawl ymateb arall y nodwyd eu bod wedi'u cyflwyno ar ran sefydliadau, ond nid oeddem yn gallu gwirio a oedd y rhain yn safbwyntiau sefydliadol dilys neu'n farn unigolyn a gyflogir gan y sefydliad. Fodd bynnag, mae'r holl ymatebion, waeth beth fo'u math, wedi'u cofnodi, eu hystyried a'u dadansoddi.

[4] Er mwyn dadansoddi'r wybodaeth, rhoddwyd cod i bob ymateb gan ddefnyddio technegau dadansoddi thematig. Mae hyn yn golygu y gellir crynhoi llawer iawn o ddata ansoddol. Sicrhawyd ansawdd y fethodoleg a'r gwaith cymhwyso.

Gwahoddwyd ymatebwyr a oedd yn defnyddio'r arolwg ar-lein i ddefnyddio blychau ticio i ymateb; rydym wedi barnu mathau eraill o ymatebion (rhai a gafwyd drwy e-bost a thrwy'r post) yn seiliedig ar eu cynnwys a'r safbwyntiau a roddwyd.

27. O'r 42,697 o ymatebion gan unigolion i'r cwestiwn hwn, roedd 5,846 naill ai'n niwtral neu heb ateb y cwestiwn. O'r 36,851 a roddodd farn ynghylch a ddylid dad-griminaleiddio achosion o osgoi talu ffi'r drwydded deledu, roedd 17,652 o blaid dad-griminaleiddio ac 19,199 yn erbyn.

28. At ei gilydd, cawsom 111,700 o ymatebion y gwnaethom nodi eu bod ynghlwm wrth ymgyrch. Roedd 92,831 o ymatebion gan ymgyrchoedd yn gwrthwynebu dad-griminaleiddio'r ffi drwydded.

29. O'r 81 ymateb gan randdeiliaid a nodwyd gennym, roedd y mwyafrif yn erbyn dad-griminaleiddio gan gynnwys y BBC a darlledwyr eraill, undebau llafur, y rhai sy'n ymwneud â chynhyrchu rhaglenni teledu a chyrff eraill. Fodd bynnag, roedd nifer lai o blaid dad-griminaleiddio, gan gynnwys rhai elusennau a rhai sefydliadau sy'n cynrychioli barn swyddogion cyfreithiol a barnwrol. Yn olaf, ni nododd rhai sefydliadau ddewis clir.

*Pam yr ydych yn credu na ddylai achosion o osgoi talu'r drwydded deledu fod yn drosedd mwyach?*

30. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i'r rhai sy'n credu na ddylai achosion o osgoi talu'r drwydded deledu fod yn drosedd mwyach egluro pam maent yn teimlo fel hyn.[5]

31. Yr ateb mwyaf cyffredin a roddwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn gan unigolion oedd y dylid newid y BBC i fodel sy'n seiliedig ar danysgrifiadau. O blith yr atebion hyn, roedd lleiafrif yn teimlo bod y model trwydded deledu presennol wedi dyddio, ac roedd cyfran fach yn meddwl y byddai model ariannu amgen yn fwy effeithiol. Roedd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys grwpiau crefyddol, ac ymatebion gan ymgyrchoedd hefyd yn gwneud y pwynt hwn gan ddadlau dros newidiadau i'r model trwydded deledu. Mae'r llywodraeth yn nodi ei hymateb i drafodaeth am y model trwydded deledu isod.

32. Hefyd, roedd rhai rhanddeiliaid ac ymatebion gan ymgyrchoedd, gan gynnwys elusennau a chyrff sy'n ymwneud â meysydd gorfodi sifil eraill, yn nodi bod y drosedd yn rhy ddifrifol neu'n anghymesur. Dyma oedd y rheswm mwyaf poblogaidd nesaf a roddwyd o blaid dad-griminaleiddio ymhlith unigolion. Ymhlith yr ymatebion gan unigolion a oedd yn nodi hyn, roedd lleiafrif sylweddol yn credu bod hyn oherwydd pryderon ynghylch cael cofnod troseddol a/neu'r effeithiau canlyniadol ar ragolygon am swyddi a theithio.[6] Roedd lleiafrif llai yn credu bod y canlyniad posibl o garchariad

[5] Yn yr arolwg ar-lein, dim ond ymatebwyr a ddywedodd yn y cwestiwn 'blwch ticio' cyntaf eu bod o blaid dad-griminaleiddio a atebodd y cwestiwn hwn. Roedd hyn yn golygu bod 15,523 o ymatebwyr unigol yn ateb y cwestiwn drwy'r arolwg ar-lein, a bod 1,404 o ymatebion drwy e-bost nad oeddent yn gysylltiedig ag ymgyrchoedd.

[6] Mae'n werth ei gwneud yn glir nad yw osgoi talu'r drwydded deledu yn drosedd a all arwain at garchariad na chofnod troseddol; o'r herwydd, mae'r llywodraeth wedi trin yr ymatebion hyn, a awgrymodd fel arall, â gofal priodol wrth ddadansoddi'r ymatebion a dod i'w phenderfyniad.

yn rhy ddifrifol, ac roedd nifer debyg yn credu bod y mesur yn achosi ofn neu'n effeithio ar iechyd meddwl. Nododd nifer fach iawn o ymatebwyr fod hyn oherwydd effaith ariannol yn sgil cosb droseddol neu ddirwyon.

33. Nododd lleiafrif o ymatebwyr unigol fod ffi'r drwydded yn anghyson â thaliadau dyledion eraill sydd, yn ôl pob golwg, yn debyg, megis arian sy'n ddyledus ar filiau cyfleustodau neu ddirwyon parcio.

34. Er bod cwestiwn diweddarach yn canolbwyntio ar dalwyr ffi'r drwydded yn benodol, nododd rhai ymatebion yma fod y drosedd yn cael effaith negyddol ar unigolion penodol a/neu sy'n agored i niwed. Er enghraifft, roedd nifer fach o ymatebion gan unigolion yn cyfeirio at bobl hŷn yn y cyd-destun hwn. Ymhlith elusennau a grwpiau eiriolaeth, nodwyd menywod, unigolion ag anableddau a'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig fel grwpiau yr ystyrir bod y drosedd yn effeithio'n anghymesur arnynt.

35. Yn olaf, nododd lleiafrif bach o ymatebwyr unigol, a nifer fach iawn o randdeiliaid, fod gosod y sancsiwn troseddol yn effeithio'n negyddol ar lysoedd neu'r system gyfiawnder. Dywedodd llai o ymatebwyr fod osgoi talu yn gwneud fawr ddim niwed, neu nad oes dioddefwr. Roedd lleiafrif bach iawn o ymatebwyr yn credu nad oedd osgoi talu ffi'r drwydded ar yr un lefel â difrifoldeb troseddau eraill. Roedd nifer debyg o ymatebwyr o'r farn bod cosb droseddol yn ateb aneffeithiol i'r broblem (er enghraifft, yn peri ataliaeth isel).

36. Er bod ei hymateb yn gwrthwynebu dad-griminaleiddio, roedd ymateb y BBC yn cynnwys arolwg cynrychioliadol ar lefel genedlaethol a gomisiynwyd ganddi gan Populus a nododd pan fydd oedolion yn y DU yn ystyried dad-griminaleiddio, fod 41% yn teimlo y dylai sancsiwn troseddol am osgoi talu'r drwydded deledu ddod i ben gan ei fod yn annheg ac yn anghymesur â pheidio â thalu am drwydded deledu. Pan ofynnwyd wedyn i bobl ystyried yr effaith bosibl ar osgoi talu, dywedodd 27% eu bod yn ffafrio dod â'r sancsiwn troseddol i ben mewn egwyddor, hyd yn oed os yw'n golygu cynnydd mewn osgoi talu.[7]

*Os ydych, fel arall, yn ystyried y dylai achosion o osgoi talu'r drwydded deledu barhau i fod yn drosedd, beth yw'ch rhesymau dros hynny?*

37. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i'r rhai sy'n credu y dylai achosion o osgoi talu'r drwydded deledu barhau i fod yn drosedd egluro pam maent yn teimlo fel hyn.[8]

38. Thema gyffredin iawn ymhlith ymatebion, gan gynnwys yr ymatebion a gafwyd gan ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys darlledwyr, rhai undebau llafur a chyrff cynhyrchu, ymgyrchoedd a mwyafrif yr ymatebion gan unigolion, oedd yr effaith ariannol negyddol bosibl ar y BBC. Nid oedd pob ymateb yn nodi a fyddai'r effaith

[7] BBC response to the Government's consultation on decriminalising TV licence evasion, 31 Mawrth 2020, paragraffau 37 a 38.

[8] Yn yr arolwg ar-lein, dim ond ymatebwyr a ddywedodd yn y cwestiwn 'blwch ticio' cyntaf eu bod yn erbyn dad-griminaleiddio a atebodd y cwestiwn hwn. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cael 17,323 o ymatebwyr unigol yn ateb y cwestiwn drwy'r arolwg ar-lein, a 1,404 o ymatebion nad ydynt yn gysylltiedig ag ymgyrchoedd drwy e-bost.

negyddol yn codi drwy gynnydd mewn achosion o osgoi talu neu gostau uniongyrchol i'r BBC wrth iddi ymgymryd â gwaith gorfodi a chasglu. Roedd ymateb y BBC yn nodi y byddai'r cynnydd amcangyfrifedig mewn achosion o osgoi talu ynghyd â chostau system newydd yn sylweddol, gyda chost gychwynnol o tua £300 miliwn.

39. O'r ymatebion gan unigolion a gododd y thema hon, gwnaeth mwyafrif bach nodi effaith negyddol bosibl ar swyddogaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Dywedodd lleiafrif o'r ymatebwyr hyn y gallai fod effaith negyddol ar ddiwylliant Prydain, ac roedd lleiafrif llai o'r farn y byddai effaith negyddol ar gynnwys o ansawdd uchel. Nododd llai o ymatebwyr ganlyniadau negyddol i'r syniad bod y BBC yn gorfod masnacheiddio neu breifateiddio, a nododd lleiafrif bach iawn effaith ar sector cynhyrchu'r DU. Gwnaeth rhai rhanddeiliaid hefyd godi effaith newidiadau ar ddarlledwyr eraill, megis S4C, a'r economi greadigol ehangach.

40. Roedd rhai ymatebion hefyd yn canolbwyntio ar agweddau tuag at sancsiynau ac ymddygiadau troseddol. Er enghraifft, roedd rhai ymatebion gan unigolion yn nodi bod y bygythiad o gosb droseddol yn atal achosion o beidio â thalu ffi'r drwydded, wrth i rai eraill nodi bod osgoi talu'r drwydded deledu yn deilwng o gosb droseddol ynddo'i hun. Roedd lleiafrif bach o ymatebwyr unigol o'r farn nad oedd mesurau gorfodi anhroseddol, megis gorfodi sifil, yn briodol.

Nododd lleiafrif bach iawn o ymatebwyr eu bod yn erbyn dad-griminaleiddio oherwydd eu bod yn ystyried bod y drosedd o osgoi talu'r drwydded deledu yn debyg i droseddau eraill, megis dwyn. Dadleuodd llai o ymatebwyr fod naill ai effaith isel ar lysoedd a'r system gyfiawnder ar hyn o bryd, neu y byddai dewisiadau amgen yn waeth. Archwiliwyd y themâu hyn hefyd yn ymateb y BBC, a soniodd fod ymchwil ymddygiadol yn dangos bod 56% o bobl yn dweud mai'r system droseddol yw'r system fwyaf tebygol i beri i bobl eraill dalu.

41. Cododd rhai rhanddeiliaid hefyd y pwynt fod dad-griminaleiddio yn debygol o gael effaith anghymesur ar rai grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl hŷn neu'r rhai sy'n llai cefnog. Dywedodd nifer fach o ymatebwyr unigol mai ychydig o effaith sydd ar grwpiau penodol a/neu grwpiau sy'n agored i niwed ar hyn o bryd, neu y byddai'r effaith yn waeth o dan drefniadau arall. Ymhlith yr ymatebwyr hyn, roedd rhai o'r farn y byddai'n effeithio ar y rhai llai cefnog yn benodol. Nododd llai o ymatebwyr fod hyn oherwydd effaith ar y boblogaeth hŷn, menywod neu'r rheini ag anableddau. Dywedodd y BBC y gallai system sifil fod yn waeth i'r rhai mwyaf agored i niwed oherwydd y potensial am lai o ddisgresiwn gan y llys, dirwyon uwch ac arferion gorfodi mwy ymwthiol gan gynnwys defnyddio beilïaid ac effaith ar statws credyd.

42. Yn olaf, nododd ymateb y BBC ei bod o'r farn bod y system bresennol yn deg, yn gymesur ac yn effeithiol ar gyfer talwyr ffi'r drwydded. Mae o'r farn bod model cosb ariannol sifil yn debygol o fod yn llai teg, yn ddrytach ac yn debygol o gael effaith sylweddol ar refeniw'r BBC, ac mae'n credu nad yw model dyled sifil yn ddewis arall ymarferol. Nododd hefyd y gallai symud i system sifil gael effaith ar y trethdalwr, gan

ddweud bod Adolygiad Perry wedi amcangyfrif hyn ar gost net o £28m.

*Os oes gennych farn, pa fodelau cynllun gorfodi amgen sy'n fwyaf priodol yn eich barn chi? Pam?*

43. Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi dwy enghraifft ar gyfer cynllun gorfodi sifil amgen: cosb ariannol sifil neu drin ffi'r drwydded sydd heb ei thalu fel dyled sifil. Yna, gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr ddweud pa gynllun gorfodi amgen yr oeddent yn credu ei fod yn fwyaf priodol, pe bai ganddynt farn.[9]

44. At ei gilydd, dim ond cyfran fach o'r holl ymatebion a nododd farn ar ba gynlluniau gorfodi sifil amgen yr oeddent yn ystyried eu bod yn fwyaf priodol. Ymhlith atebion gan unigolion, dangosodd cyfran fach eu bod yn ffafrio trefniadau sifil cyffredinol eraill heb nodi unrhyw fanylion pellach. Dangosodd cyfran lai o unigolion (a rhai ymatebion gan ymgyrchoedd) eu bod yn ffafrio dyled sifil a/neu ddefnyddio enghreifftiau megis treth gyngor fel model. Dangosodd hyd yn oed llai o ymatebwyr ffafriaeth tuag at gosb ariannol sifil neu ddefnyddio enghreifftiau megis torri rheolau parcio fel model.

45. Ymhlith rhanddeiliaid a fynegodd eu bod yn ffafrio trefniadau gorfodi sifil penodol eraill, roedd hollt eithaf cytbwys rhwng cefnogaeth i gosb ariannol sifil a'r modelau dyled sifil. Nododd rhanddeiliaid eraill ffafriaeth gyffredinol tuag at system sifil, ond heb nodi unrhyw fanylion pellach.

46. Roedd ail ran y cwestiwn yn gofyn i ymatebwyr esbonio'r rheswm dros eu dewis. O'r ymatebwyr unigol a nododd eu bod yn ffafrio dulliau gorfodi sifil, dywedodd lleiafrif bach y byddai'n galluogi mesurau gorfodi gwell, wrth i swm tebyg nodi y byddai'r dewisiadau amgen yn decach a/neu'n fwy cymesur. Nododd llai y byddai'r dewisiadau amgen yn sicrhau y gellir codi mwy o refeniw ffi'r drwydded. Codwyd themâu tebyg gan randdeiliaid, gan gynnwys cyrff sy'n ymwneud â meysydd gorfodi sifil eraill, a nododd y rhanddeiliaid hyn y gall gorfodaeth sifil arwain at well cydymffurfiad a gwella'r gwaith casglu o gymharu â'r model presennol.

47. Fodd bynnag, roedd cyfran fwy o ymatebion gan unigolion, a rhai ymatebion ar ran ymgyrchoedd, yn nodi ffafriaeth tuag at ddewisiadau amgen heblaw dulliau sifil. Er enghraifft, awgrymodd lleiafrif y byddai system danysgrifio neu system mur talu yn fwy dymunol. Nododd llai o ymatebwyr y byddai dim cosb o gwbl yn ddewis amgen gwell. Dywedodd lleiafrif bach iawn o ymatebwyr y dylai cynllun gorfodi amgen fod yn fwy cost-effeithiol neu godi mwy o arian. Nododd llai o'r ymatebwyr hyn y dylai dewis amgen gynnig gwell dull o orfodi, neu y dylai fod ar sail prawf modd a/neu'n gymesur.

*Pa gamau y gallai'r llywodraeth eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau a allai ddeillio o ddad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu?*

48. Roedd yr ymgynghoriad yn cydnabod y byddai unrhyw newid i'r model gorfodi yn effeithio ar holl dalwyr ffi'r drwydded, y BBC a'r lefel osgoi talu yn y model casglu.

[9] Atebodd 24,888 o ymatebwyr unigol y cwestiwn hwn drwy'r arolwg ar-lein a chawsom 1,404 o ymatebion e-bost nad oeddent yn gysylltiedig ag ymgyrchoedd.

Gwnaethom ofyn i ymatebwyr nodi unrhyw gamau yr oeddent yn ystyried y gallent gael effaith liniaru fel rhan o unrhyw newid.[10]

49. Roedd y prif themâu a godwyd yn y cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar liniaru'r effaith ar y BBC, yn hytrach nag ar y sawl sy'n talu ffi'r drwydded, y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig penodol neu'r system llysoedd. Er enghraifft, roedd llawer o ymatebion, gan gynnwys y rhai a gafwyd gan ymgyrchoedd a nifer fach o randdeiliaid, yn nodi y gallai cefnogaeth bellach gan y llywodraeth liniaru'r effaith ar y BBC o ran costau. Yr ymatebion mwyaf cyffredin gan unigolion oedd awgrymiadau y gallai'r llywodraeth gynyddu neu gynnal cyllid ar gyfer ffi'r drwydded drwy gefnogaeth neu dreth y llywodraeth. Ymhlith y sawl a nododd hyn, awgrymodd rhai y gallai'r llywodraeth dalu am drwyddedau i'r rhai hynny dros 75 oed, ond awgrymodd llai y gellid talu am grwpiau eraill, megis y rhai ar incwm is a/neu rai mathau o brofion modd. Ychydig iawn o ymatebion gan unigolion a nododd yn benodol fod angen lliniaru effaith ar grwpiau eraill megis y rhai hynny dros 75 oed neu grwpiau sy'n agored i niwed, y llysoedd neu'r system gyfiawnder a'r llywodraeth, ond roedd hon yn thema fwy cyffredin ymhlith rhanddeiliaid.

50. Yn yr un modd, nododd ymatebwyr eraill sawl ffordd o gynyddu neu gynnal refeniw ffi'r drwydded. Un thema oedd yn codi dro ar ôl tro ymhlith ymatebion unigol oedd gwelliannau i'r trefniadau casglu a gorfodi: er enghraifft, roedd lleiafrif bach o ymatebwyr o'r farn y gellid gwneud hyn drwy ddirwyon, megis drwy system gorfodi sifil, ac roedd ychydig yn llai o ymatebwyr o'r farn y gellid cyflawni hyn drwy ddulliau technolegol i rwystro achosion o osgoi talu. Nododd cyfran fach o ymatebwyr ei bod yn well ganddynt fasnacheiddio, gan nodi y gellid ceisio ariannu drwy danysgrifiadau, hysbysebion neu dalu am wylio. Roedd lleiafrif llai o ymatebwyr o'r farn y dylai'r BBC leihau ei chostau neu ei chyllideb (naill ai cyflogau, effeithlonrwydd cyffredinol neu gostau rhaglennu a chynhyrchu).

51. Nododd ymateb y BBC na allai weld sut y gellid lliniaru effaith cynllun gorfodi sifil – gan gynnwys yr effaith bosibl ar statws credyd – wrth gyflawni cynllun sancsiynau effeithiol ar yr un pryd.

52. Yn yr ymgynghoriad, amlinellodd y llywodraeth y byddai'n ystyried ymestyn y Cynllun Talu Syml ymhellach i gynyddu hyblygrwydd a chyfleustra i holl dalwyr ffi'r drwydded ar ôl ei gyflwyno'n barhaus ar gyfer grwpiau cymwys.[11] Dim ond nifer fach o randdeiliaid a grybwyllodd ddulliau talu trwydded deledu, gan gynnwys y Cynllun Talu Syml, fel ffordd o liniaru effeithiau ar dalwyr ffi'r drwydded unigol.

*Rhowch unrhyw dystiolaeth sy'n briodol yn eich barn chi wrth ateb y cwestiynau hyn ac unrhyw wybodaeth arall y credwch y dylai'r llywodraeth ei hystyried, yn enwedig pan fo effaith ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig neu'r rhai mwyaf agored i niwed.*

---

[10] Atebodd 28,197 o ymatebwyr unigol y cwestiwn drwy'r arolwg ar-lein a chawsom 1,404 o ymatebion e-bost nad oeddent yn gysylltiedig ag ymgyrchoedd.
[11] Gohiriodd y BBC gyflwyno'r Cynllun Talu Syml tan 13 Gorffennaf 2020 oherwydd y sefyllfa o ran coronafeirws.

53. Yn olaf, i'r rhai a ymatebodd o fewn y fformat cwestiwn, rhoesom gyfle iddynt ddarparu tystiolaeth y tu allan i'r cwestiynau a godwyd uchod.[12]

54. Cododd llawer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn themâu tebyg i'r rheini a archwiliwyd uchod heb ychwanegu unrhyw dystiolaeth ychwanegol. Fodd bynnag, gwnaeth rhai ymatebion i'r cwestiwn hwn gyfeirio at yr effaith ar y BBC yn benodol.

55. Yn unol â'r safbwyntiau a nodwyd mewn cwestiynau eraill, ac yn gyffredin ag ystod o ymatebion gan randdeiliaid, cyfeiriodd lleiafrif sylweddol o ymatebion at effaith dad-griminaleiddio ar unigolion a grwpiau penodol neu rai sy'n agored i niwed. Ymhlith yr ymatebwyr a nododd hyn, cyfeiriodd cyfran sylweddol at yr effaith ar y boblogaeth hŷn. Gwnaeth rhai ymatebwyr gyfeirio at yr effaith ar bobl sydd dan anfantais economaidd. Gwnaeth lleiafrif bach o ymatebwyr dynnu sylw at effaith ar y rheini ag anableddau yn yr adran hon, ond ychydig iawn a gyfeiriodd at nodweddion gwarchodedig eraill megis rhywedd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol.

56. Cyfeiriodd lleiafrif bach o ymatebwyr at effaith ar randdeiliaid eraill, gan gynnwys y llywodraeth, y llysoedd/system gyfiawnder a'r gymdeithas ehangach. Ychydig iawn o ymatebwyr a gyfeiriodd at effaith mecanweithiau gorfodi amgen, megis y mesurau gorfodi sifil amgen, ond gwnaethom dderbyn nifer fach o ymatebion gan randdeiliaid oedd yn rhan o gyrff cyfreithiol a barnwrol a oedd yn trafod yr angen i ystyried gwahanol awdurdodaethau cyfreithiol.

57. Yn ei hymateb, nododd y BBC feysydd lle'r oedd o'r farn bod posibiliadau i ddiwygio o fewn y system bresennol. Roedd y syniadau hyn yn cynnwys gwelliannau o ran targedu achosion o osgoi talu'r drwydded deledu; estyniad o'r Cynllun Talu Syml yn y dyfodol (a drafodir uchod); ac ystyried newid i'r ffordd y cesglir y drwydded deledu.

58. Gwnaeth lleiafrif bach iawn o ymatebwyr ddarparu ffynonellau tystiolaeth yn yr adran hon. Wrth edrych ar y ffynonellau tystiolaeth hyn, y rhai y cyfeiriwyd atynt fwyaf oedd cysylltiadau at wefannau cyffredinol ac Adolygiad Perry 2015. Mewn ychydig iawn o amgylchiadau, rhoddwyd ffynonellau gwybodaeth o'r cyfryngau cymdeithasol, papurau newydd, ymchwil academaidd a'r llywodraeth hefyd.

*Ffactorau eraill y cyfeiriwyd atynt gan ymatebwyr*

59. Nododd yr ymgynghoriad na fyddai'r llywodraeth yn ystyried newidiadau ehangach i'r drwydded deledu ac felly gellid diystyru gwybodaeth a roddwyd yn y meysydd hyn.

60. Er gwaethaf hyn, cawsom nifer sylweddol o ymatebion gan unigolion a rhanddeiliaid a oedd yn ymdrin â meysydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion a oedd yn cynnig barn ar: ansawdd a gwerth y BBC yn

[12] Cawsom 17,570 o ymatebwyr unigol yn ateb y cwestiwn drwy'r arolwg ar-lein a 1,404 o ymatebion e-bost nad oeddent yn gysylltiedig ag ymgyrchoedd.

gyffredinol; barn ar ariannu'r BBC; gogwydd canfyddedig y BBC; a'r model ehangach ar gyfer ffi'r drwydded. Nid yw'r ymatebion hyn wedi cael eu hystyried fel rhan o'r ymateb hwn gan y llywodraeth.

61. Roedd rhai ymatebion a gafwyd drwy ymgyrchoedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar bynciau eraill, gan gynnwys gwerth y BBC, modelau ariannu amgen a bwriadau'r llywodraeth tuag at y BBC a ffi'r drwydded. Yn ogystal, roedd rhai ymatebion a gafwyd drwy ymgyrchoedd yn cynnwys atebion i gwestiynau eraill nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad. Nid yw'r elfennau hyn o'r ymatebion wedi cael eu hystyried fel rhan o ymateb y llywodraeth.

*Ymatebion ymgyrchoedd*

62. Cyflwynwyd cyfran fawr o'r ymatebion a gafwyd ar y cyd ag un o dair ymgyrch a gynigiwyd gan 38Degrees, y TaxPayers' Alliance ac We Own It. Roedd yr ymgyrchoedd hyn yn cynnig ystod o gwestiynau ac opsiynau i ymatebwyr yr ydym wedi'u crynhoi isod.

<u>38 Degrees</u>

63. Cafwyd 106,284 o ymatebion drwy ymgyrch 38Degrees. Yn gyntaf, rhoddwyd gwybodaeth i ymatebwyr am gost dad-griminaleiddio i'r BBC a chost ffi'r drwydded ac yna gofynnwyd am eu barn ynghylch a ddylid dad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu. Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa un o'r ddau ddatganiad a ganlyn oedd yn cynrychioli eu barn orau:
    - *Nid wyf yn cefnogi dad-griminaleiddio ffi'r drwydded gan y byddai'n peri i'r BBC fod ar ei cholled o £200m y flwyddyn.*
    - *Rwy'n cefnogi dad-griminaleiddio ffi'r drwydded, hyd yn oed os yw'n golygu bod y BBC yn gorfod torri gwasanaethau a rhaglenni yn y pen draw oherwydd diffyg cyllid.*

64. Yn seiliedig ar yr opsiynau hyn, roedd 89,054 o bobl yn erbyn dad-griminaleiddio, ac roedd 17,230 o blaid.

<u>Y TaxPayers' Alliance</u>

65. Cafwyd 1,639 o ymatebion drwy ymgyrch y TaxPayers' Alliance. Wrth ymateb i'r ymgyrch hon, gofynnwyd i unigolion pa faterion yn ymwneud â dad-griminaleiddio oedd o bwys iddynt. Roedd atebion gosod ar gyfer pob un o'r cwestiynau a nodwyd yn ymgynghoriad y llywodraeth, a gwnaeth ddewisiadau'r unigolion hyn boblogi ymateb yr ymgyrch:
    - *Defnyddiodd 1,598 o ymatebion yr ateb gosod ar gyfer 'pam na ddylai peidio â thalu ffi'r drwydded fod yn drosedd mwyach';*
    - *Defnyddiodd 862 o ymatebion yr ateb gosod ar gyfer 'pa gynllun gorfodi amgen fyddai orau a pham';*
    - *Defnyddiodd 1,365 o ymatebion yr ateb gosod ar gyfer 'awgrymiadau ar yr hyn y gallai'r llywodraeth ei wneud i liniaru unrhyw effaith yn sgil dad-griminaleiddio'; a*

- *Defnyddiodd 1,128 o ymatebion yr ateb gosod ar gyfer 'unrhyw wybodaeth arall y dylai'r llywodraeth ei hystyried'.*

66. Roedd y set lawn o atebion hefyd ar gael fel ymateb cyflawn gan y TaxPayers' Alliance.

<u>We Own It</u>

67. Cafwyd 3,777 o ymatebion drwy'r ymgyrch 'Don't destroy our BBC' gan We Own It. Nododd yr ymgyrch ei barn ar gyfreithlondeb yr ymgynghoriad a phwysigrwydd y BBC. Yna, cynigiwyd ymateb wedi'i rag-lenwi i ymatebwyr yn gwrthwynebu dad-griminaleiddio y gallent ychwanegu eu manylion personol ato ac unrhyw fanylion eraill yr oeddent yn ystyried eu bod yn bwysig.

# Ymateb y llywodraeth a'r camau nesaf

68. Mae'r adran hon yn manylu ar ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad ar ddad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu ac yn amlinellu'r camau nesaf.

69. Wrth benderfynu a ddylid dad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu, ac ystyried sut y gallai hyn ddigwydd, nododd y ddogfen ymgynghori y bydd amcanion a ffactorau penderfynu'r llywodraeth yn cynnwys ystyriaeth o'r canlynol:
    - p'un a yw cynllun gorfodi amgen, nad yw'n droseddol, yn decach ac yn fwy cymesur;
    - y gost a'r anhawster o weithredu unrhyw gynllun amgen;
    - yr effaith bosibl ar dalwyr ffi'r drwydded, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig; ac
    - effaith gyffredinol casglu ffi'r drwydded.

70. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r llywodraeth yn dal i bryderu bod erlyn troseddol, fel mater o egwyddor, yn ddull gorfodi annheg ac anghymesur ar gyfer achosion o osgoi talu'r drwydded deledu mewn system ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus fodern.

71. Cododd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad bryderon hefyd fod y sancsiwn troseddol yn cael ei ystyried yn arbennig o anghymesur i rai grwpiau cymdeithasol. Nodir hyn yn amlycach i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig penodol a'r rhai mwyaf agored i niwed, gan gydnabod y straen a'r pryder ychwanegol y gall y sancsiwn ei achosi. Er enghraifft, gall pobl 75 oed a hŷn sydd bellach yn gymwys i dalu am drwydded deledu – yn dilyn penderfyniad y BBC ar 10 Mehefin 2019 i gyfyngu ar gymhwystra ar gyfer trwyddedau rhad ac am ddim – wynebu pryder a straen ynghylch y bygythiad o erlyniad troseddol.

72. Fodd bynnag, yn unol â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r llywodraeth hefyd yn cydnabod y gallai newid y sancsiwn ar gyfer osgoi talu'r drwydded deledu gael effeithiau eang ar dalwyr ffi'r drwydded, yn gadarnhaol ac yn negyddol, ac effeithiau sylweddol ar y BBC o ran gweithredu cynllun gorfodi newydd a'r gwaith parhaus o gasglu ffi'r drwydded.

73. Mae'r llywodraeth yn credu'n gryf y dylai unrhyw sancsiwn sifil amgen sicrhau bod y gosb am osgoi talu'r drwydded deledu yn ddigon cadarn i danategu'r gofyniad cyfreithiol i fod yn berchen ar drwydded deledu ac atal achosion o beidio â thalu ffi'r drwydded. Cyn dod i benderfyniad terfynol ar y ffordd ymlaen, mae angen asesiad pellach ar fanylion cynlluniau gorfodi sifil effeithiol sy'n cydbwyso'r gofyniad hwnnw â'r effeithiau posibl ar dalwyr ffi'r drwydded: er enghraifft, mae angen asesiad ar y lefel briodol ar gyfer dirwy sifil, a fyddai'n debygol o fod yn uwch nag ar hyn o bryd, ac ar y prosesau sy'n gysylltiedig â gorfodi unrhyw ddyled neu gosb sifil.

74. Rhaid sicrhau bod mesurau gorfodi priodol ar gael i drin y rhai sy'n osgoi'r gofyniad hwn fel nad yw talwyr ffi'r drwydded dan anfantais ac nad yw'r system yn cael effaith anghymesur ar y mwyafrif sy'n byw yn unol â'r gyfraith. Fodd bynnag, fel y dangosir

yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rhaid cydbwyso unrhyw fesurau cosbi a gorfodi yn briodol yn erbyn anghenion y rhai mwyaf agored i niwed, a allai fod dan anfantais annheg o dan sancsiwn amgen. Yn benodol, mae'r llywodraeth yn nodi pryderon ynghylch effaith bosibl cosbau ariannol uwch ar gleientiaid sy'n agored i niwed, gan gynnwys o ganlyniad i gynnydd posibl mewn defnydd o feilïaid a gyflogir yn breifat sy'n codi ffioedd ar y rhai y maent yn gorfodi yn eu herbyn, y byddai angen eu hystyried yn ofalus.

75. Mae'r llywodraeth hefyd yn cydnabod yr effaith gyffredinol bosibl y gallai symud i gynllun sifil amgen ei chael ar gasglu ffi'r drwydded a'r effaith y gallai hyn ei chael ar incwm y BBC a'i gwasanaethau i bawb sy'n talu ffi'r drwydded pe bai achosion o osgoi talu yn cynyddu, fel yr amlygwyd mewn nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad.

76. Wrth gadw hyn mewn cof, mae'r llywodraeth felly'n bwriadu parhau i asesu'r effeithiau posibl hyn o sancsiwn amgen ar dalwyr ffi'r drwydded. **Ar y sail hon, er nad oes unrhyw benderfyniad terfynol wedi'i wneud ar hyn o bryd, bydd y llywodraeth yn cadw'r mater o ddad-griminaleiddio dan ystyriaeth barhaus fel rhan o'r cynllun o ddiwygio'r BBC a drafodir isod.**

77. Er mwyn helpu i ddod i benderfyniad terfynol ynghylch a ddylid dad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu, bydd y llywodraeth felly'n parhau i archwilio opsiynau ar sut y gellid rhoi sancsiwn sifil effeithiol ar waith ar gyfer achosion o osgoi talu'r drwydded deledu. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso'r costau tebygol y byddai sefydlu a gweinyddu cynllun sifil newydd yn eu peri i'r llywodraeth a'r system llysoedd.

78. Gall y llywodraeth gynnal ymgynghoriad technegol pellach ar y sancsiynau sifil amgen posibl. Gallai'r ymgynghoriad hwn, er enghraifft, nodi'n fanylach sut y gallai cynlluniau amgen weithio'n ymarferol, gan gynnwys sancsiynau a mesurau gorfodi priodol ar gyfer y rhai sy'n osgoi'r gofyniad i gael trwydded.

79. Mae gan y llywodraeth gynllun ehangach ar gyfer diwygio'r BBC a fydd yn parhau i lywio'r ystyriaethau ar ddad-griminaleiddio. Dechreuodd hyn yn gynharach eleni wrth ddechrau'r trafodaethau i gytuno ar gost y drwydded deledu o 2022 ymlaen, yn unol â gofynion y Siarter Frenhinol.[13]

80. Yn benodol, byddai penderfyniad yn y dyfodol ar ddad-griminaleiddio achosion o osgoi talu'r drwydded deledu yn elwa ar gael darlun cliriach o ran sbardunau ehangach incwm y BBC yn y dyfodol – gan gynnwys tueddiadau'r farchnad, demograffig a defnyddwyr. Felly, bydd y llywodraeth yn bwrw ymlaen â'i hystyriaeth o ddad-griminaleiddio a diwygiadau posibl eraill i system ffi'r drwydded yng nghyd-destun ehangach y setliad nesaf hwn ar gyfer ffi'r drwydded.

81. Cam arall o'r cynllun yw ystyried model ehangach ffi'r drwydded. Er bod y llywodraeth wedi ymrwymo i gadw model ariannu ffi'r drwydded drwy gydol cyfnod presennol y Siarter hyd at 2027, mae'r llywodraeth wedi bod yn glir y bydd yn

[13] Negotiations on the future cost of the TV licence kick off, gov.uk, 10 Tachwedd 2020.

adolygu model ehangach y drwydded deledu cyn y Siarter nesaf. Mae hyn oherwydd bod y llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod y BBC a'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn addasu i farchnad sy'n newid yn gyflym, ac yn parhau i fod wrth galon ein sector teledu blaenllaw.

# Atodiad A: rhestr o randdeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Cafwyd llawer o ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn nodi eu bod wedi'u cyflwyno ar ran sefydliadau. Mewn rhai achosion, nid oeddem yn gallu gwirio a oedd y rhain yn safbwyntiau sefydliadol dilys neu'n farn unigolyn a gyflogir gan y sefydliad. Fodd bynnag, mae'r holl ymatebion, waeth beth fo'u math, wedi'u cofnodi, eu hystyried a'u dadansoddi.

Felly, nodwyd bod 81 o ymatebion wedi dod oddi wrth sefydliadau neu randdeiliaid ac fe'u cyflwynir isod.

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Ymgynghorol yr Alban i Ofcom | Ivors Academy of Music Creators | Llafur yr Alban |
| AgeUK | The Judith Trust | Solihull Ratepayers Association |
| All3Media | Cymdeithas Clercod Ynadon | Eglwys Sant Ioan, Waterloo |
| APPEAL | Coleg y Brenin Llundain (Yr Athro Jeanette Steemers) | Y Blaid Lafur – Etholaeth Stone |
| Cyngor Celfyddydau Lloegr | Later Life Ambition | Teledwyr Annibynnol Cymru |
| AudioUK | Cymdeithas y Gyfraith yr Alban | Swyddfa Sharon Hodgson (AS dros Washington a Gorllewin Sunderland a Gweinidog Iechyd yr Wrthblaid) |
| BBC | Licencefree.co.uk | The Othona Community, Gorllewin Dorset |
| Bectu | Cymdeithas Ynadon | Urdd Awduron Prydain Fawr |
| Bible Theology Ministries | Marston Holdings | Cymorth i Ferched Thrive |
| Cyngor Undebau Llafur Blackburn a'r Cylch | Media Reform Coalition | Together Women |
| Sefydliad Ffilm Prydain | Mersey Film | Tribiwnlys Cosbau Traffig |
| Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant, Prifysgol Caerdydd | MG Alba | Transform Justice |
| Children's Media Foundation | Money Advice Trust | TUC Yorkshire & the Humber Executive |
| Cynghrair Pobl Gristnogol | Confensiwn Cenedlaethol y Pensiynwyr | Grŵp Defnyddwyr Beiciau Tunbridge Wells |
| Cristnogion yn erbyn Tlodi | Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr | Unite the Union |
| Cymdeithas Gorfodi Sifil | Nine Lives Media | Yr Athro Emeritws Paul Luna (Prifysgol Reading) |
| Gwasanaeth Cyngor Annibynnol Coventry | Pact | Yr Athro Jonathan Bradshaw (Prifysgol Efrog) |

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor y Diwydiannau Creadigol a Hamdden | Portobello Radio | Visioning Lab Ltd |
| Creative Scotland | Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai | Voice of the Listener and Viewer |
| Curry Jacks | Yr Athro Steven Barnett (Athro Cyfathrebu, Prifysgol San Steffan) | Wavelength |
| Directors UK | Public Media Alliance | We Own It |
| Endemol Shine Ltd | Richard Collins (Cyn-athro, Prifysgol Llundain) | Llywodraeth Cymru |
| Ending Loneliness CIC | RNIB | Comisiynydd y Gymraeg |
| Equity | S4C | West London Bench |
| Rhwydwaith Teulu a Chymuned | Ymddiriedolaeth Sandford St Martin | Wire Free Productions Ltd |
| Ffilm Cymru Wales | Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban | Women In Prison |
| Incorporated Society of Musicians | Llywodraeth yr Alban | Woodside Academy |